Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

## Adroddiad Blynyddol 2018-19

Gorffennaf 2019
(Diwygiwyd Awst 2020)

# Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Adroddiad Blynyddol 2018-19

**Cynulleidfa**
Awdurdodau Lleol yng Nghymru; Tribiwnlys Prisio Cymru a phartïon eraill a chanddynt fuddiant mewn llywodraeth leol a'r sectorau lles.

**Trosolwg**
Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â rhoi Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ar waith yn ystod 2018-19.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid anfon ymholiadau ynghylch y ddogfen hon i:
Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: CouncilTaxSupport@llyw.cymru

**Copïau Ychwanegol**
Mae’r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn
https://llyw.cymru/cynllun-gostyngiadaur-dreth-gyngor-adroddiadau-blynyddol

**Diwygiadau**
Yn dilyn cyhoeddi’r adroddiad gwreiddiol ym mis Gorffennaf 2019, canfuwyd gwall yn Nhabl A4. Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig yr adroddiad ym mis Awst 2020.

# Cynnwys


CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 5

1. Y CEFNDIR ........ 6

2. Y CYNLLUN GOSTYNGIADAU YNG NGHYMRU: GWERTH Y GOSTYNGIADAU ........ 7

2.1 Llwyth achosion diwedd blwyddyn 2018-19 ........ 7

2.2 Gwerth y gostyngiadau ar ddiwedd y flwyddyn, 2018-19 ........ 8

2.3 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau fel canran o’r aelwydydd atebol ........ 9

3. TUEDDIADAU A PHATRYMAU ........ 10

3.1 Gair am fethodoleg ........ 10

3.2 Llwyth achosion cyffredinol ........ 11

3.3 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl oedran ac awdurdod lleol ........ 12

3.4 Llwyth achosion yn ôl math o ddyfarniad ........ 14

3.7 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu ........ 18

4. MEYSYDD DISGRESIWN LLEOL ........ 21

5. APELIADAU ........ 22

5.1 Tribiwnlys Prisio Cymru ........ 22

ATODIAD A: YSTADEGAU YCHWANEGOL YNGHYLCH Y CYNLLUN GOSTYNGIADAU AR GYFER 2018-19 ........ 23

**Mynegai i'r Ffigurau**

Ffigur 1: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru, Mai 2013 i Mawrth 2019 ........ 11
Ffigur 2: Cyfran aelwydydd sy'n cael gostyngiadau'r dreth gyngor yn ôl oedran, Mawrth 2019 ........ 12
Ffigur 3: Canran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn ôl dyfarniad llawn neu rannol ........ 14
Ffigur 4: Cyfran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn ôl statws pasbortio ...... 15
Ffigur 5: Newidiadau i lwyth achosion yn ôl statws incwm, Mawrth 2019 ......... 16
Ffigur 6: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu, Mawrth 2018-Mawrth 2019 ........ 18
Ffigur 7: Canran y llwyth achosion cyffredinol yn ôl band y dreth gyngor, Mawrth 2019 ........ 19
Ffigur 8: Cyfran aelwydydd sy'n cael gostyngiadau'r dreth gyngor yn ôl band y dreth gyngor, Mawrth 2019 (a) ........ 20

**Mynegai i'r Tablau**

Tabl 1: Y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru: Llwyth achosion a gwerth y gostyngiadau 2018-19 (a) ........ 7
Tabl 2: Achosion y Cynlluniau Gostyngiadau mewn cymhariaeth â phob aelwyd atebol, 2018-19 ........ 9
Tabl 3: Apeliadau i Dribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer 2018-19 ........ 22

**Atodiad A – Tablau**

Tabl A1: Lefelau'r dreth gyngor, 2018-19 ........ 23
Tabl A2: Llwyth achosion byw y Cynllun Gostyngiadau, Ebrill 2018 – Mawrth 2019 ........ 24
Tabl A3: Ffigurau llwyth achosion byw y Cynllun Gostyngiadau yn ôl grŵp oedran, Mawrth 2019 (a) ........ 25
Tabl A4: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl statws incwm, Mawrth 2019 ........ 26
Tabl A5: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu, Mawrth 2019 (a) ........ 27
Tabl A6: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band y dreth gyngor, Mawrth 2019 (a) ........ 28

## Crynodeb Gweithredol

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd Budd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru ei ddisodli gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (y Cynllun Gostyngiadau), a chafodd ymgeiswyr cymwys eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cynllun newydd. Mae rheoliadau'r Cynllun Gostyngiadau yn seiliedig i raddau helaeth ar yr hen reolau ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor.

Yn 2013-14, rhoddodd Llywodraeth Cymru £244 miliwn i awdurdodau lleol i'w helpu i roi'r cymorth llawn y mae gan bob aelwyd cymwys yr hawl i'w gael wrth fodloni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw'r trefniadau ariannu hyn bob blwyddyn ers hynny.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am roi'r Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru ar waith yn ystod 2018-19, gan helpu i sicrhau tryloywder mewn maes sy'n dal i gael cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r data diwedd blwyddyn yn dangos y canlynol[1]:

- Cafodd 277,989 o aelwydydd yng Nghymru ostyngiad yn y Dreth Gyngor yn 2018-19, o'i gymharu â 284,581 yn 2017-18 – 6,592 o achosion yn llai (2.4%).
- Y cyfanswm a gofnodwyd ar gyfer gwerth y gostyngiadau a roddwyd drwy'r Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru yn 2018-19 oedd tua £260.9 miliwn, o'i gymharu â £254 miliwn yn 2017-18 – wedi cynyddu tua £6.9 miliwn (2.7%).

Mae'r data ynghylch llwyth achosion 'agored' misol yn dangos y canlynol[2]:

- Roedd 113,966 o aelwydydd pensiynwyr yng Nghymru yn cael gostyngiad yn y Dreth Gyngor drwy'r Cynllun Gostyngiadau ym mis Mawrth 2019, o'i gymharu â 116,823 ym mis Mawrth 2018. Mae hyn yn golygu bod llwyth achosion pensiynwyr yn cynnwys 2,857 yn llai o achosion (2.4%).
- Roedd 165,188 o aelwydydd o oedran gweithio yng Nghymru yn cael gostyngiad yn y Dreth Gyngor drwy'r Cynllun Gostyngiadau ym mis Mawrth 2019, o'i gymharu â 168,863 ym mis Mawrth 2018 – 3,675 o achosion yn llai (2.2%).
- O'r 279,202 o aelwydydd yng Nghymru a gafodd ostyngiad drwy'r Cynllun Gostyngiadau, ni wnaeth 219,292 dalu unrhyw dreth gyngor o gwbl.
- Ym mis Mawrth 2019, roedd 61% o'r aelwydydd a oedd yn cael gostyngiad yn y Dreth Gyngor drwy'r Cynllun Gostyngiadau yn achosion wedi'u pasbortio. Roedd 39% yn achosion heb eu pasbortio.
- Roedd 11.7% o aelwydydd a oedd yn cael gostyngiad yn y Dreth Gyngor drwy'r Cynllun Gostyngiadau yn cael Credyd Cynhwysol.
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth oedd y math mwyaf cyffredin o achos wedi'i basbortio, ac roedd yn cyfrif am oddeutu 25.2% o holl achosion y Cynllun Gostyngiadau.
- Roedd 84.9% o'r aelwydydd a oedd yn cael gostyngiad yn y Dreth Gyngor drwy'r Cynllun Gostyngiadau yn byw mewn eiddo ym Mandiau A-C ym mis Mawrth 2019, o'i gymharu ag 84.5% ym mis Mawrth 2018.
- Cafodd Tribiwnlys Prisio Cymru 17 apêl newydd a oedd yn ymwneud â'r Cynllun Gostyngiadau yn ystod 2018-19, o'i gymharu â 57 yn ystod 2017-18.

---

[1] Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno ffigurau diwedd blwyddyn i Lywodraeth Cymru. Doedd ffigurau 2018-19 ddim wedi cael eu dilysu pan gyhoeddwyd y ddogfen hon.

[2] Daw'r data am lwyth achosion 'agored' misol o fodel rhagamcanu. Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg ar gael yn adran 3.

## 1. Y cefndir

Yn yr Adolygiad o Wariant yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bwriad i ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor, ac i roi'r cyfrifoldeb am ddatblygu trefniadau newydd ar awdurdodau lleol yn Lloegr. Ar yr un pryd, cyhoeddodd gynlluniau i drosglwyddo cyllid i'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban, gan ddisgwyl y bydden nhw'n sefydlu trefniadau newydd. Cafodd y cyllid i roi cymorth ar gyfer y dreth gyngor ei drosglwyddo o gyllidebau seiliedig ar alw i gyllidebau sefydlog, gan ei chwtogi 10%.

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd Budd-dal y Dreth Gyngor yng Nghymru ei ddisodli gan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a chafodd aelwydydd cymwys eu trosglwyddo'n awtomatig i'r cynllun newydd. Roedd y rheoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 yn seiliedig i raddau helaeth ar yr hen reolau ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor i sicrhau hawl i gefnogaeth. Rhoddwyd rhywfaint o ddisgresiwn lleol i'r awdurdodau lleol hefyd, gan alluogi pob un ohonynt i ystyried anghenion a blaenoriaethau eu hardal leol.

Darparwyd £244 miliwn yn y setliad llywodraeth leol ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau yn 2013-14. Cafodd cyllideb sefydlog o £222 miliwn ei throsglwyddo gan Lywodraeth y DU. Rhoddodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn ychwanegol i helpu awdurdodau lleol i barhau i roi'r cymorth llawn y mae gan bob ymgeisydd cymwys yr hawl i'w gael. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gynnal y trefniadau hyn bob blwyddyn ers hynny. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sicrhau'r hawl llawn i gymorth dan y cynllun: felly bydd newidiadau i nifer y llwyth achosion yn adlewyrchu'r newidiadau yn nifer yr aelwydydd sy'n diwallu'r meini prawf ar gyfer cael cymorth.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi data ar lefel Cymru am werth gostyngiadau a llwyth achosion cyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2018-19 yn seiliedig ar ddata rheoli achosion. Mae hefyd yn rhoi dadansoddiad manwl o'r tueddiadau a'r patrymau ers i'r Cynlluniau Gostyngiadau gael ei gyflwyno. Mae'r holl ffigurau ynghylch gwerth gostyngiadau wedi cael eu talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

Mae **Atodiad A** yn rhoi ystadegau ychwanegol ar gyfer 2018-19, sydd heb eu cynnwys yn y prif adroddiad.

Mae amlinelliad o'r prif reoliadau wrth gyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru - gan gynnwys sawl set arall o reoliadau, er enghraifft ymchwilio i dwyll, rhannu gwybodaeth ac apeliadau - wedi'i gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2013-14. Mae'r adroddiad hefyd yn egluro'r meini prawf cymhwysedd yn fanylach, a'r ffordd mae gostyngiadau'n cael eu cyfrifo.

# 2. Y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru: Gwerth y Gostyngiadau

## 2.1 Llwyth achosion diwedd blwyddyn 2018-19

Casglwyd data diwedd blwyddyn gan awdurdodau lleol ynghylch cyfanswm y llwyth achosion ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Mae ‘llwyth achosion’ yn cyfeirio at *aelwydydd* yn hytrach nag unigolion. Mewn geiriau eraill, mae rhai achosion yn cyfeirio at unigolyn, ac achosion eraill yn cyfeirio at gwpl neu deulu.

Mae Tabl 1 yn dangos mai 277,989 oedd cyfanswm y llwyth achosion ar gyfer 2018-19. Mae hyn o'i gymharu â 284,581 yn 2017-18. Felly, mae’r llwyth achosion yn cynnwys 6,592 yn llai o achosion (2.4%). Mae llwyth achosion y mwyafrif o awdurdodau lleol wedi lleihau. Roedd y lleihad mwyaf fel canran y llwyth achosion i'w weld ym Mlaenau Gwent (-4%). Torfaen oedd yr unig awdurdod lle'r oedd cynnydd mewn llwyth achosion (dau achos yn fwy).

### Tabl 1: Y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru: Llwyth achosion a gwerth y gostyngiadau 2018-19 (a)

| | Llwyth achosion | | | Gwerth y gostyngiad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer 2017-18 | Nifer 2018-19 | Newid o 2017-18 (%) | Cyfanswm 2017-18 (£ mil) (b) | Cyfanswm 2018-19 (£ mil) (b) | Newid o 2017-18 (%) |
| Ynys Môn | 6,016 | 5,848 | -2.9 | 5,342 | 5,381 | 0.7 |
| Gwynedd | 9,683 | 9,367 | -3.4 | 9,192 | 9,325 | 1.4 |
| Conwy | 10,456 | 10,252 | -2.0 | 9,400 | 9,576 | 1.9 |
| Sir Ddinbych | 9,731 | 9,559 | -1.8 | 9,370 | 9,545 | 1.9 |
| Sir y Fflint | 11,114 | 10,752 | -3.4 | 9,972 | 10,306 | 3.4 |
| Wrecsam | 11,697 | 11,445 | -2.2 | 9,879 | 9,933 | 0.6 |
| Powys | 9,297 | 9,233 | -0.7 | 8,545 | 8,919 | 4.4 |
| Ceredigion | 5,890 | 5,716 | -3.0 | 5,206 | 5,406 | 3.9 |
| Sir Benfro | 10,589 | 10,487 | -1.0 | 7,688 | 8,529 | 10.9 |
| Sir Gaerfyrddin | 16,301 | 16,007 | -1.8 | 14,751 | 15,100 | 2.4 |
| Abertawe | 23,101 | 22,438 | -3.0 | 19,865 | 20,311 | 2.2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 17,537 | 17,067 | -2.8 | 17,053 | 17,308 | 1.5 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13,658 | 13,336 | -2.4 | 13,617 | 14,084 | 3.4 |
| Bro Morgannwg | 9,720 | 9,558 | -1.7 | 9,421 | 9,671 | 2.7 |
| Rhondda Cynon Taf | 25,494 | 24,866 | -2.5 | 22,571 | 23,037 | 2.1 |
| Merthyr Tudful | 6,607 | 6,399 | -3.3 | 5,923 | 5,994 | 1.2 |
| Caerffili | 17,857 | 17,320 | -3.1 | 13,556 | 13,799 | 1.8 |
| Blaenau Gwent | 9,103 | 8,753 | -4.0 | 8,521 | 8,631 | 1.3 |
| Torfaen | 9,983 | 9,985 | 0.0 | 8,449 | 8,797 | 4.1 |
| Sir Fynwy | 5,714 | 5,690 | -0.4 | 5,936 | 6,160 | 3.8 |
| Casnewydd | 13,729 | 13,506 | -1.7 | 10,636 | 10,910 | 2.6 |
| Caerdydd | 31,304 | 30,405 | -3.0 | 29,127 | 30,142 | 3.5 |
| **Cymru** | **284,581** | **277,989** | **-2.4** | **254,019** | **260,864** | **2.7** |

(a) Ffynhonnell: Ffigurau Llwyth Achosion Awdurdodau Lleol 2018-19 (heb eu dilysu) a 2017-18 (wedi'u dilysu).
(b) Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r mil agosaf ac felly efallai y bydd ychydig o anghysondeb rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfansymiau a nodwyd.

## 2.2 Gwerth y gostyngiadau ar ddiwedd y flwyddyn, 2018-19

'Gwerth y gostyngiad' yw'r swm yn llai o atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ar gyfer yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae awdurdodau lleol yn cael cyllid i wneud iawn am yr incwm treth gyngor y byddent yn ei gael fel arall gan aelwydydd perthnasol sy'n gymwys i gael cymorth, ac sy'n gwneud cais am y cymorth hwnnw. Mae hynny'n golygu bod yr aelwydydd cymwys yn cael llai o fil treth gyngor, neu nad oes ganddyn nhw unrhyw fil i'w dalu.

O'r data llwyth achosion, cyfanswm y gostyngiad ar gyfer yr holl aelwydydd yng Nghymru yn 2018-19 oedd £260.9 miliwn, o'i gymharu â £254.0 miliwn yn 2017-18. Mae hyn tua £6.9m (2.7%) yn fwy.

Drwy ragweld hyd at ddiwedd y flwyddyn ar sail llwyth achosion, mae'r ffigurau hyn yn goramcangyfrif union werth y gostyngiadau a roddwyd. Yr alldro a archwiliwyd ar gyfer y cynlluniau gostyngiadau yn 2017-18 oedd £247.4 miliwn (nid yw'r ffigur ar gyfer 2018-19 ar gael eto).

Mae'r nifer sy'n derbyn gostyngiadau'r dreth gyngor ym mhob awdurdod lleol wedi cynyddu. Sir Benfro oedd â'r cynnydd mwyaf (10.9%). Sir y Fflint oedd â'r cynnydd lleiaf (0.6%). Mae Tabl 1 yn cynnwys ffigurau am gyfanswm y gostyngiadau fesul awdurdod lleol.

Mae'r ffigurau'n dangos nad yw'r lleihad yn y llwyth achosion yn cael ei adlewyrchu mewn gostyngiad cyfatebol yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau. Gellir priodoli hyn yn helaeth i gynnydd yn y dreth gyngor yn lleol, sydd wedi rhoi pwysau cynyddol ar y gostyngiad cyfartalog fesul aelwyd.

Mae Tabl A1 yn Atodiad A yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd yn y dreth gyngor fesul awdurdod lleol ar gyfer 2018-19.

## 2.3 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau fel canran o'r aelwydydd atebol

Mae Tabl 2 yn dangos, ym mis Mawrth 2019, mai 20.2% oedd canran llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer yr holl eiddo sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn yn amrywio'n helaeth o'r naill awdurdod lleol i'r llall. Sir Fynwy sydd â'r llwyth achosion lleiaf mewn cymhariaeth â'r holl aelwydydd sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor (14%). Blaenau Gwent sydd â'r llwyth achosion mwyaf mewn cymhariaeth â'r holl aelwydydd sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor (27.6%).

**Tabl 2: Achosion y Cynlluniau Gostyngiadau mewn cymhariaeth â phob aelwyd atebol, 2018-19**

| | Nifer yr aelwydydd atebol 2018-19 (a) | Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau 2018-19 (b) | Achosion mewn cymhariaeth â phob aelwyd atebol (%) |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 33,779 | 5,848 | 17.3 |
| Gwynedd | 57,848 | 9,367 | 16.2 |
| Conwy | 55,229 | 10,252 | 18.6 |
| Sir Ddinbych | 43,668 | 9,559 | 21.9 |
| Sir y Fflint | 66,708 | 10,752 | 16.1 |
| Wrecsam | 58,334 | 11,445 | 19.6 |
| Powys | 62,444 | 9,233 | 14.8 |
| Ceredigion | 32,800 | 5,716 | 17.4 |
| Sir Benfro | 59,392 | 10,487 | 17.7 |
| Sir Gaerfyrddin | 84,865 | 16,007 | 18.9 |
| Abertawe | 105,817 | 22,438 | 21.2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 63,860 | 17,067 | 26.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 62,932 | 13,336 | 21.2 |
| Bro Morgannwg | 56,693 | 9,558 | 16.9 |
| Rhondda Cynon Taf | 104,241 | 24,866 | 23.9 |
| Merthyr Tudful | 26,443 | 6,399 | 24.2 |
| Caerffili | 77,145 | 17,320 | 22.5 |
| Blaenau Gwent | 31,749 | 8,753 | 27.6 |
| Torfaen | 40,785 | 9,985 | 24.5 |
| Sir Fynwy | 40,769 | 5,690 | 14.0 |
| Casnewydd | 66,015 | 13,506 | 20.5 |
| Caerdydd | 143,657 | 30,405 | 21.2 |
| **Cymru** | **1,375,172** | **277,989** | **20.2** |

(a) Ffynhonnell: StatsCymru
(b) Ffynhonnell: Ffigurau Llwyth Achosion Awdurdod Lleol 2018-19 (heb eu dilysu)

# 3. Tueddiadau a Phatrymau

## 3.1 Gair am fethodoleg

Daw'r ffigurau yn y bennod hon o adnodd modelu a rhagamcanu (Datatank Connect). Mae Datatank Connect yn tynnu manylion am werth gostyngiadau a llwyth achosion agored y Cynllun Gostyngiadau o systemau budd-daliadau a refeniw craidd awdurdodau lleol ar sail cipolwg misol, ac yn rhagweld y data hyd at ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn rhoi data am werth gostyngiadau a llwyth achosion cyffredinol, yn ogystal â gwybodaeth fanwl am y mathau o aelwydydd sy’n cael gostyngiadau drwy’r Cynllun Gostyngiadau, a chyfartaledd y gostyngiadau a roddwyd i’r aelwydydd hyn.


Mae dau bwynt pwysig i’w nodi. Yn gyntaf, mae’r data yn rhoi gwybodaeth fanwl am **achosion byw yn unig**. Yn wahanol i’r data diwedd blwyddyn, nid yw’r data hwn yn rhoi gwybodaeth am achosion sydd wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn. Mae’r gwahaniaeth yn dibynnu ar lif achosion, ac mae’n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2018-19, y gwahaniaeth rhwng y ffigur diwedd blwyddyn (277,989) a’r llwyth achosion agored ar gyfer mis Mawrth 2018 (279,202) yw 1,213 o achosion.

Yn ail, mae’r data yn cymharu gwahanol elfennau o’r data diwedd blwyddyn a nodwyd yn y bennod flaenorol. Yn hytrach na dadansoddi’r newidiadau i’r llwyth achosion a’r gostyngiadau rhwng 2017-18 a 2018-19, mae’r bennod hon yn cymharu llwyth achosion byw rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2019.

### 3.2 Llwyth achosion cyffredinol

Ers i'r Cynllun Gostyngiadau gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2013, mae cyfanswm y llwyth achosion wedi lleihau yn raddol.

**Ffigur 1: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru, Mai 2013 i Mawrth 2019**




*Ffynhonnell: Datatank*

Ym mis Mawrth 2019, cyfanswm y llwyth achosion oedd 279,202. Mae'r llwyth achosion wedi gostwng 7,020 (2.5%) ers mis Mawrth 2018, a thua 44,000 ers cyflwyno'r cynllun gostyngiadau.


Mae Tabl A2 yn Atodiad A yn rhoi'r ffigurau misol ar gyfer y llwyth achosion byw rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.

### 3.3 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl oedran ac awdurdod lleol

Mae Ffigur 2 manylu ar ganran yr aelwydydd sy’n cael gostyngiadau'r dreth gyngor yn ôl grŵp oedran ac awdurdod lleol. O’r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, Caerdydd oedd â’r gyfran uchaf o lwyth achosion o aelwydydd oedran gweithio yn cael gostyngiad (67.3%), ac felly’r gyfran isaf o aelwydydd pensiynwyr yn cael gostyngiad (32.7%).

Yn wrthgyferbyniad i hyn, Powys sydd â’r gyfran uchaf o aelwydydd sy’n bensiynwyr sy’n cael gostyngiad (49.6%), ac felly’r gyfran isaf o aelwydydd oedran gweithio sy’n cael gostyngiad (50.4%).

**Ffigur 2: Cyfran aelwydydd sy’n cael gostyngiadau'r dreth gyngor yn ôl oedran, Mawrth 2019**




*Ffynhonnell: Datatank*

Mae Tabl A3 yn Atodiad A yn rhoi union ffigurau’r llwyth achosion yn ôl grŵp oedran ar gyfer mis Mawrth 2019.

Ym mis Mawrth 2019, roedd 165,188 o achosion o bobl o oedran gweithio. Mae hyn 3,675 o achosion yn llai o’i gymharu â mis Mawrth 2018 (2.2%). Roedd y llwyth achosion o bobl o oedran gweithio wedi lleihau mewn 20 awdurdod lleol. Roedd y lleihad mwyaf ym Mlaenau Gwent a Phowys (4.5%). Roedd y cynnydd mwyaf yn Wrecsam (7.8%).

Yn gyffredinol, mae’r aelwydydd o bobl o oedran gweithio wedi parhau i leihau, a hynny efallai oherwydd bod pobl yn gadael y system fudd-daliadau’n llwyr oherwydd bod sefyllfa’r economi wedi gwella’n gyffredinol a/neu effeithiau cronnus diwygiadau lles. Ond gall y lleihad mewn llwyth achosion o oedran

gweithio yng Nghymru hefyd fod yn rhannol oherwydd effaith Credyd Cynhwysol (gweler adran 3.4).

Roedd 113,966 o aelwydydd pensiynwyr (41%) yn cael gostyngiadau drwy'r Cynllun Gostyngiadau ym mis Mawrth 2019. Mae hyn 2.4% yn llai nag ym mis Mawrth 2018. Roedd y lleihad mwyaf yn Sir Gaerfyrddin (5.7%). Yng Nghaerdydd roedd cynnydd o 1.2% mewn llwyth achosion sy'n bensiynwyr, a dyma'r unig awdurdod lleol yng Nghymru lle'r oedd cynnydd yn yr aelwydydd sy'n bensiynwyr ac sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor.

Mae'n bosib bod y lleihad yn y llwyth achosion aelwydydd pensiynwyr yn deillio'n rhannol o newidiadau i oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer menywod. I ddynion, 65 yw oedran pensiwn y wladwriaeth, ac mae wedi bod yn cynyddu'n raddol o 60 i 65 i fenywod ers mis Ebrill 2010 er mwyn bod yr un fath ag oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer dynion erbyn mis Tachwedd 2018.


Mae'n bosib bod cyfran y pensiynwyr sy'n cael gostyngiadau'r dreth gyngor hefyd wedi lleihau. Mae hyn oherwydd bod y carfanau newydd o bensiynwyr wedi tueddu i fod ag incwm uwch, yn fwy tebygol o fod yn berchen-feddianwyr ac yn llai tebygol o wneud cais am ostyngiadau'r dreth gyngor.

### 3.4 Llwyth achosion yn ôl math o ddyfarniad

Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, gall aelwydydd sy'n cael gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru fod â hawl i gael gostyngiad llawn lle bydd eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn cael ei leihau i sero, neu ostyngiad rhannol lle bydd rhaid iddynt dalu rhan o'u bil treth gyngor.

Mae Ffigur 3 yn dangos cyfran yr aelwydydd sy'n gymwys i gael dyfarniad gostyngiad llawn. Ym mis Mawrth 2019, cafodd 78.5% (219,292) o aelwydydd ddyfarniad gostyngiad llawn ac nid oedd rhaid iddynt dalu'r dreth gyngor o gwbl.

**Ffigur 3: Canran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn ôl dyfarniad llawn neu rannol**




### 3.5: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl statws pasbortio

Mae ffigur 4 yn dosbarthu'r llwyth achosion cyffredinol yn chwe chategori yn seiliedig ar 'statws incwm'.

Os yw aelwyd yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, neu Warant Credyd Pensiwn, mae'n cael ei alw'n 'achos wedi'i basbortio'. Mae hyn oherwydd eu bod yn cael eu hasesu yn awtomatig am ostyngiadau'r dreth gyngor.

Os nad yw aelwyd yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn, neu'n cael Credyd Cynhwysol, caiff ei alw'n 'achos heb ei basbortio'. Y rheswm dros hyn yw y bydd angen i'r aelwyd wneud cais ar wahân am ostyngiad.

**Ffigur 4: Cyfran yr aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn ôl statws pasbortio**





Mae Ffigur 4 yn dangos ym mis Mawrth 2019 bod achosion wedi'u pasbortio yn 61% o gyfanswm y llwyth achosion. Mae hyn o'i gymharu â 67.4% ym mis Mawrth 2018.

Roedd achosion safonol heb eu pasbortio yn 27.2% o holl achosion y Cynllun Gostyngiadau yn 2019, sy'n lleihad o ddau bwynt canran o'r flwyddyn flaenorol.

Roedd aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol yn 11.7% o gyfanswm llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau o'i gymharu â 3.4% yn 2018.

Wrth i'r broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol barhau, bydd y gyfran achosion wedi'u pasbortio a heb eu pasbortio yn parhau i leihau, a bydd cyfran yr achosion Credyd Cynhwysol yn parhau i gynyddu.

**Ffigur 5: Newidiadau i lwyth achosion yn ôl statws incwm, Mawrth 2019**




*Ffynhonnell: Datatank*

Mae ffigur 5 yn dangos y newid i'r llwyth achosion yn ôl statws incwm rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2019. Mae'n dangos bod yr achosion wedi'u pasbortio (Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Cymhorthdal Incwm a Chredyd Pensiwn) 22,439 yn llai ers 2018 (11.6%). Bu lleihad o 7,667 (9.2%) yn y nifer o achosion safonol heb eu pasbortio hefyd. I'r gwrthwyneb roedd 32,773 o achosion Credyd Cynhwysol ym mis Mawrth 2019 o'i gymharu â 9,687 ym mis Mawrth 2018.

Y budd-daliadau pasbortio mwyaf cyffredin oedd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Chredyd Pensiwn (Credyd Gwarant) sef ychydig dros hanner holl achosion y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru.

Mae tabl A4 yn Atodiad A yn rhoi union ffigurau llwyth achosion yn ôl statws incwm ac awdurdod lleol ar gyfer mis Mawrth 2019.

### 3.6 Nodyn ar effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Mae Credyd Cynhwysol yn disodli chwech o'r prif fudd-daliadau oedran gweithio seiliedig ar brawf modd: Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai, Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith.

Yn awr, mae'n rhaid i aelwydydd sy'n cael Credyd Cynhwysol wneud cais ar wahân am ostyngiad i'r dreth gyngor. Mae hyn yn wahanol i'r rhai a fydd wedi'u hasesu yn flaenorol am ostyngiad i'r dreth gyngor fel rhan o'u budd-daliadau pasbortio. Yn yr achosion hyn, doedd dim angen i aelwydydd cymwys fod yn rhagweithiol o ran gwneud cais am ostyngiad i'r dreth gyngor.

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y newid hwn yn effeithio ar y llwyth achosion cyffredinol ar gyfer gostyngiadau'r dreth gyngor yng Nghymru, wrth i aelwydydd a aeth drosodd i'r system Credyd Cynhwysol adael system ostyngiadau'r dreth gyngor oherwydd diffyg ymwybyddiaeth am y dull newydd. Mae Credyd Cynhwysol hefyd yn effeithio ar gymhwysedd aelwydydd i gael gostyngiad i'r dreth gyngor, er enghraifft, os oes gan un aelwyd incwm uwch dan Credyd Cynhwysol o'i gymharu â'i incwm o'r blaen, gall fod yn gymwys i gael llai o ostyngiad i'r dreth gyngor, neu gall beidio diwallu'r meini prawf am ostyngiad o gwbl.


Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu asesiad manwl o effaith Credyd Cynhwysol ar y Cynllun Gostyngiadau yng Nghymru. Rydym yn bwriadu rhoi gwybod am ganfyddiadau'r ymchwil hwn yn 2020.

## 3.7 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu

Mae Ffigur 6 yn dangos newidiadau i lwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu. Mae'n dangos mai aelwydydd un oedolyn heb ddibynyddion yw'r categori mwyaf. Roedd yr aelwydydd hyn yn cyfrif am 161,268 (58%) o achosion ym mis Mawrth 2019, lleihad o 1.2% ers mis Mawrth 2018.

Mae'r llwyth achosion ar gyfer mathau eraill o deuluoedd wedi lleihau mwy na hynny. Roedd 52,660 (19%) o aelwydydd un rhiant ym mis Mawrth 2019, 2.8% yn llai o'i gymharu â mis Mawrth 2018. Roedd 42,401 (15%) o aelwydydd a oedd yn cynnwys cwpl heb ddibynyddion, 4.2% yn llai o'i gymharu â mis Mawrth 2018. Roedd 22,873 (8%) o aelwydydd a oedd yn cynnwys cwpl a phlant dibynnol, 7.2% yn llai o'i gymharu â mis Mawrth 2018.

**Ffigur 6: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu, Mawrth 2018-Mawrth 2019**




*Ffynhonnell: Datatank*


Mae tabl A5 yn Atodiad A yn rhoi'r union ffigurau llwyth achosion yn ôl math o deulu ac awdurdod lleol ar gyfer mis Mawrth 2019.

### 3.8 Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band y dreth gyngor

Mae Ffigur 7 yn dangos cyfran hawlwyr y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band y dreth gyngor ym mis Mawrth 2019. Neilltuir band y dreth gyngor i bob annedd drethadwy yn dibynnu ar werth yr eiddo ar y farchnad. Eiddo Band A sy'n talu'r cyfraddau isaf o'r dreth gyngor ac eiddo Band I sy'n talu'r cyfraddau uchaf. (Band A – cyfradd ostyngedig i eiddo a addaswyd ar gyfer pobl gydag anableddau).


Yng Nghymru, roedd 84.9% o'r aelwydydd a oedd yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor yn byw mewn eiddo ym Mandiau A-C ym mis Mawrth 2019. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd dosbarthiad yr anheddau ym Mandiau'r Dreth Gyngor, gyda bron i dri chwarter yr anheddau trethadwy ym Mandiau A i D.

**Ffigur 7: Canran y llwyth achosion cyffredinol yn ôl band y dreth gyngor, Mawrth 2019**




*Ffynhonnell: Datatank*

**Ffigur 8: Cyfran aelwydydd sy’n cael gostyngiadau'r dreth gyngor yn ôl band y dreth gyngor, Mawrth 2019 (a)**




(a) Daw'r ffigurau ar gyfer cyfanswm yr anheddau trethadwy o StatsCymru
Daw'r ffigurau ar gyfer cyfanswm hawlwyr gostyngiadau'r dreth gyngor o Datatank

Mae Ffigur 8 yn dangos cyfran yr anheddau trethadwy sy'n cael gostyngiadau'r dreth gyngor yn ôl band y dreth gyngor. Mae'r gyfran uchaf o anheddau sy'n cael gostyngiadau'r dreth gyngor ym Mand A, sef 43.2%. Mae'r gyfran isaf o aelwydydd sy'n cael gostyngiadau'r dreth gyngor ym Mandiau E i I, sef 4.7%.

Mae Tabl A6 yn Atodiad A yn rhoi’r union ffigurau ar gyfer llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl awdurdod lleol a band y dreth gyngor ym mis Mawrth 2019.

## 4. Meysydd disgresiwn lleol

O dan Reoliadau'r Cynllun Gostyngiadau, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu ei gynllun ei hun ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol erbyn 31 Ionawr. Mae'r cynllun yn cynnwys meysydd o ddisgresiwn lleol, er mwyn i awdurdodau allu ystyried anghenion a blaenoriaethau eu hardal leol. Fe aeth pob awdurdod ati i fabwysiadu cynllun, ond petai un ohonyn nhw heb wneud hynny, byddai'r cynllun diofyn wedi cael ei gyflwyno er mwyn sicrhau bod aelwydydd cymwys yn dal i gael cymorth ariannol i fodloni eu hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.

Dyma'r meysydd disgresiwn lleol lle gall awdurdod lleol ddewis cyflwyno darpariaethau mwy hael ar eu cyfer na'r gofynion sylfaenol yn y rheoliadau:

- *Cyfnod gostyngiad estynedig* – gall awdurdodau lleol gynyddu'r cyfnod lle bydd gan ymgeiswyr hawl i barhau i gael gostyngiad mewn rhai amgylchiadau, y tu hwnt i'r cyfnod safonol o bedair wythnos.

- *Ôl-ddyddio ceisiadau* – gall awdurdodau lleol ôl-ddyddio ceisiadau am ostyngiadau y tu hwnt i'r cyfnod safonol o dri mis.

- *Pensiwn Anabledd Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gweddw* – gall awdurdodau lleol ddiystyru mwy na'r swm statudol o £10 a gafwyd mewn perthynas â'r pensiynau hyn wrth gyfrifo incwm.

Gwnaeth awdurdodau lleol yng Nghymru y penderfyniadau canlynol ynghylch eu Cynllun Gostyngiadau ar gyfer 2018-19:

- Ni wnaeth unrhyw awdurdod lleol ymestyn y cyfnod safonol o bedair wythnos lle bydd gan ymgeiswyr hawl i barhau i gael gostyngiad mewn rhai amgylchiadau.

- Dewisodd un awdurdod ôl-ddyddio hawliadau am hyd at 26 wythnos yn hytrach na thri mis.

- Penderfynodd pob awdurdod ddiystyru Pensiynau Rhyfel yn llwyr wrth gyfrifo incwm, uwchlaw'r swm statudol o £10 a gafwyd mewn perthynas â phensiynau rhyfel.

Ceir manylion am gynllun pob awdurdod lleol ar eu gwefannau unigol.

## 5. Apeliadau

### 5.1 Tribiwnlys Prisio Cymru

Ers cyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau ar 1 Ebrill 2013, Tribiwnlys Prisio Cymru sydd wedi bod yn gyfrifol am wrando ar apeliadau sy'n deillio o'r penderfyniadau ynghylch y Cynllun Gostyngiadau. Mae'n rhaid i unigolion sy'n talu'r dreth gyngor gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i'w hawdurdod lleol cyn gallu cofrestru apêl.

Mae Tabl 3 yn dangos canlyniad yr apeliadau ynglŷn â'r Cynllun Gostyngiadau a gyflwynwyd i Dribiwnlys Prisio Cymru yn ystod 2018-19. Cafwyd 17 apêl yn ystod 2018-19 (wedi lleihau o 57 yn 2017-18), a chafodd 35 eu dwyn ymlaen o 2017-18.

O blith y rheini, cafwyd penderfyniadau ar gyfer 14 achos, a dygwyd 38 o achosion heb eu cwblhau ymlaen i 2019-20.

O ran y rheini y cafwyd penderfyniad yn eu cylch, cafodd 2 achos ei setlo cyn gwrandawiad panel y tribiwnlys. Fel arfer, mae canlyniadau'r achosion hyn yn mynd o blaid y sawl sy'n apelio, gan fod awdurdod wedi ailystyried ei benderfyniad cychwynnol ar ôl cael tystiolaeth ychwanegol ynghylch hawliad y sawl sy'n apelio.

**Tabl 3: Apeliadau i Dribiwnlys Prisio Cymru ar gyfer 2018-19**

| | Derbyniadau | | Penderfyniadau | | | Yn weddill |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Derbyniwyd yn 2018-19 | Wedi'u dwyn ymlaen o 2017-18 | Wedi'u setlo cyn gwrandawiad y tribiwnlys | Penderfyniad wedi'i wneud gan dribiwnlys | Wedi'u dileu | Achosion wedi'u dwyn ymlaen i'r cyfnod nesaf |
| **Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** | 17 | 35 | 2 | 12 | 0 | 38 |

# Atodiad A: Ystadegau ychwanegol ynghylch y Cynllun Gostyngiadau ar gyfer 2018-19

## Tabl A1: Lefelau'r dreth gyngor, 2018-19

| | Y Dreth Gyngor Eiddo Band D ar Gyfartaledd (£) 2018-19 | Cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfartaledd am eiddo band D (%) ers 2017-18 |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,440.78 | 4.6 |
| Gwynedd | 1,601.03 | 4.7 |
| Conwy | 1,469.16 | 4.8 |
| Sir Ddinbych | 1,555.39 | 4.6 |
| Sir y Fflint | 1,480.32 | 6.1 |
| Wrecsam | 1,398.37 | 3.9 |
| Powys | 1,470.57 | 5.3 |
| Ceredigion | 1,483.61 | 5.0 |
| Sir Benfro | 1,252.41 | 11.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 1,500.35 | 4.6 |
| Abertawe | 1,517.75 | 5.6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,772.48 | 4.1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,675.82 | 5.2 |
| Bro Morgannwg | 1,465.93 | 4.4 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,665.53 | 3.8 |
| Merthyr Tudful | 1,735.21 | 4.5 |
| Caerffili | 1,308.71 | 4.5 |
| Blaenau Gwent | 1,827.94 | 4.2 |
| Torfaen | 1,526.25 | 4.8 |
| Sir Fynwy | 1,538.93 | 4.9 |
| Casnewydd | 1,300.71 | 4.7 |
| Caerdydd | 1,390.58 | 5.4 |
| **Cymru** | **1,492.03** | **5.1** |

Ffynhonnell: Gofynion Cyllidebol

## Tabl A2:  Llwyth achosion byw y Cynllun Gostyngiadau, Ebrill 2018 – Mawrth 2019

| | Ebr-2018 | Mai-2018 | Meh-2018 | Gorff-2018 | Awst-2018 | Medi-2018 | Hyd-2018 | Tach-2018 | Rhag-2018 | Ion-2019 | Chwef-2019 | Maw-2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 6,004 | 5,991 | 5,977 | 5,948 | 5,895 | 5,824 | 5,830 | 5,833 | 5,849 | 5,838 | 5,920 | 6,003 |
| Gwynedd | 9,606 | 9,603 | 9,566 | 9,560 | 9,456 | 9,429 | 9,391 | 9,409 | 9,381 | 9,357 | 9,357 | 9,336 |
| Conwy | 10,133 | 10,394 | 10,371 | 10,353 | 10,287 | 10,269 | 10,209 | 10,246 | 10,194 | 10,170 | 10,211 | 10,215 |
| Sir Ddinbych | 9,731 | 9,755 | 9,665 | 9,681 | 9,641 | 9,645 | 9,611 | 9,638 | 9,591 | 9,598 | 9,578 | 9,604 |
| Sir y Fflint | 11,138 | 11,092 | 11,106 | 10,957 | 10,937 | 10,911 | 10,867 | 10,839 | 10,745 | 10,749 | 10,741 | 10,741 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Wrecsam | 11,854 | 11,794 | 11,688 | 11,699 | 11,707 | 11,690 | 11,682 | 11,624 | 11,600 | 11,502 | 11,850 | 12,081 |
| Powys | 9,310 | 9,241 | 9,321 | 9,247 | 9,222 | 9,220 | 9,171 | 9,179 | 9,175 | 9,157 | 9,157 | 9,157 |
| Ceredigion | 5,482 | 5,461 | 5,446 | 5,447 | 5,444 | 5,447 | 5,414 | 5,392 | 5,375 | 5,370 | 5,357 | 5,357 |
| Sir Benfro | 10,589 | 10,623 | 10,654 | 10,613 | 10,583 | 10,610 | 10,535 | 10,506 | 10,563 | 10,563 | 10,618 | 10,628 |
| Sir Gaerfyrddin | 16,227 | 16,355 | 16,263 | 16,272 | 16,246 | 16,205 | 16,148 | 16,080 | 16,126 | 16,073 | 16,135 | 16,212 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Abertawe | 23,101 | 22,994 | 23,005 | 22,987 | 22,872 | 22,845 | 22,771 | 22,726 | 22,623 | 22,493 | 22,338 | 22,392 |
| Castell-nedd Port Talbot | 17,463 | 17,504 | 17,459 | 17,342 | 17,286 | 17,207 | 17,181 | 17,086 | 17,005 | 16,973 | 16,950 | 16,939 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13,658 | 13,674 | 13,750 | 13,793 | 13,757 | 13,727 | 13,608 | 13,528 | 13,521 | 13,494 | 13,471 | 13,436 |
| Bro Morgannwg | 9,674 | 9,726 | 9,705 | 9,712 | 9,675 | 9,731 | 9,687 | 9,658 | 9,640 | 9,594 | 9,574 | 9,574 |
| Rhondda Cynon Taf | 25,303 | 25,168 | 25,168 | 25,267 | 25,214 | 25,183 | 25,102 | 25,090 | 25,011 | 24,897 | 24,832 | 24,871 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Merthyr Tudful | 6,607 | 6,586 | 6,602 | 6,568 | 6,484 | 6,478 | 6,485 | 6,472 | 6,465 | 6,440 | 6,408 | 6,420 |
| Caerffili | 17,790 | 17,816 | 17,800 | 17,780 | 17,664 | 17,635 | 17,620 | 17,540 | 17,406 | 17,406 | 17,288 | 17,288 |
| Blaenau Gwent | 9,124 | 9,103 | 9,125 | 9,035 | 8,932 | 8,881 | 8,784 | 8,752 | 8,815 | 8,819 | 8,812 | 8,789 |
| Torfaen | 9,983 | 10,032 | 10,031 | 10,013 | 10,041 | 10,044 | 10,036 | 10,034 | 10,056 | 10,020 | 10,010 | 10,010 |
| Sir Fynwy | 5,714 | 5,746 | 5,748 | 5,762 | 5,745 | 5,732 | 5,734 | 5,718 | 5,718 | 5,722 | 5,712 | 5,718 |
| | | | | | | | | | | | | |
| Casnewydd | 13,712 | 13,789 | 13,749 | 13,753 | 13,741 | 13,826 | 13,706 | 13,666 | 13,552 | 13,508 | 13,476 | 13,459 |
| Caerdydd | 31,213 | 31,070 | 31,329 | 31,302 | 31,159 | 31,113 | 31,131 | 30,982 | 30,948 | 30,948 | 30,948 | 30,948 |
| **Cymru** | **283,416** | **283,517** | **283,528** | **283,091** | **281,988** | **281,652** | **280,703** | **279,998** | **279,359** | **278,691** | **278,743** | **279,178** |

Ffynhonnell: Datatank

## Tabl A3: Ffigurau llwyth achosion byw y Cynllun Gostyngiadau yn ôl grŵp oedran, Mawrth 2019 (a)

| | Cyfanswm llwyth achosion | | | Llwyth achosion pensiynwyr | | | Llwyth achosion oedran gweithio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer achosion byw Mawrth 2019 | Nifer achosion byw Mawrth 2018 | Newid ers Mawrth 2018 (%) | Nifer achosion byw Mawrth 2019 | Nifer achosion byw Mawrth 2018 | Newid ers Mawrth 2018 (%) | Nifer achosion Mawrth 2019 | Nifer achosion Mawrth 2018 | Newid ers Mawrth 2018 (%) |
| Ynys Môn | 6,004 | 6,133 | -2.1 | 2,843 | 2,894 | -1.8 | 3,160 | 3,221 | -1.9 |
| Gwynedd | 9,336 | 9,667 | -3.4 | 4,562 | 4,745 | -3.9 | 4,774 | 4,922 | -3.0 |
| Conwy | 10,215 | 10,502 | -2.7 | 4,768 | 4,894 | -2.6 | 5,447 | 5,608 | -2.9 |
| Sir Ddinbych | 9,604 | 9,797 | -2.0 | 4,206 | 4,335 | -3.0 | 5,398 | 5,462 | -1.2 |
| Sir y Fflint | 10,741 | 11,086 | -3.1 | 5,159 | 5,323 | -3.1 | 5,582 | 5,763 | -3.1 |
| Wrecsam | 12,081 | 11,792 | 2.5 | 4,955 | 5,168 | -4.1 | 7,121 | 6,605 | 7.8 |
| Powys | 9,159 | 9,460 | -3.2 | 4,544 | 4,624 | -1.7 | 4,615 | 4,831 | -4.5 |
| Ceredigion | 5,357 | 5,520 | -3.0 | 2,349 | 2,406 | -2.4 | 3,008 | 3,114 | -3.4 |
| Sir Benfro | 10,628 | 10,708 | -0.7 | 4,552 | 4,607 | -1.2 | 6,076 | 6,093 | -0.3 |
| Sir Gaerfyrddin | 16,214 | 16,911 | -4.1 | 7,114 | 7,544 | -5.7 | 9,084 | 9,183 | -1.1 |
| Abertawe | 22,398 | 23,264 | -3.7 | 8,676 | 8,937 | -2.9 | 13,722 | 14,327 | -4.2 |
| Castell-nedd Port Talbot | 16,939 | 17,471 | -3.0 | 6,562 | 6,701 | -2.1 | 10,377 | 10,770 | -3.6 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13,445 | 13,811 | -2.7 | 5,279 | 5,388 | -2.0 | 8,166 | 8,423 | -3.1 |
| Bro Morgannwg | 9,574 | 9,729 | -1.6 | 3,859 | 3,922 | -1.6 | 5,715 | 5,807 | -1.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 24,871 | 25,447 | -2.3 | 9,728 | 10,070 | -3.4 | 15,143 | 15,377 | -1.5 |
| Merthyr Tudful | 6,420 | 6,624 | -3.1 | 2,479 | 2,528 | -1.9 | 3,941 | 4,094 | -3.7 |
| Caerffili | 17,288 | 17,900 | -3.4 | 7,322 | 7,509 | -2.5 | 9,966 | 10,391 | -4.1 |
| Blaenau Gwent | 8,790 | 9,145 | -3.9 | 3,534 | 3,630 | -2.6 | 5,256 | 5,505 | -4.5 |
| Torfaen | 10,012 | 9,951 | 0.6 | 3,849 | 3,876 | -0.7 | 6,159 | 6,048 | 1.8 |
| Sir Fynwy | 5,719 | 5,811 | -1.6 | 2,643 | 2,664 | -0.8 | 3,075 | 3,135 | -1.9 |
| Casnewydd | 13,459 | 13,828 | -2.7 | 4,873 | 5,063 | -3.8 | 8,586 | 8,765 | -2.0 |
| Caerdydd | 30,948 | 31,665 | -2.3 | 10,110 | 9,995 | 1.2 | 20,817 | 21,419 | -2.8 |
| **Cymru** | **279,202** | **286,222** | **-2.5** | **113,966** | **116,823** | **-2.4** | **165,188** | **168,863** | **-2.2** |

Ffynhonnell: Datatank

(a) Mae’r ffigurau hyn yn cynnwys 48 o achosion, gydag oedran yr ymgeisydd yn anhysbys

## Tabl A4: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl statws incwm, Mawrth 2019

| | Cyfanswm | Heb ei basbortio | Cymhorthdal Incwm | Lwfans Ceisio Gwaith | Lwfans cyflogaeth a chymorth | Credyd Pensiwn (Credyd Gwarant) | Credyd Cynhwysol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 6,004 | 2,031 | 482 | 293 | 1,383 | 1,815 | 239 |
| Gwynedd | 9,336 | 3,201 | 690 | 397 | 2,131 | 2,917 | 417 |
| Conwy | 10,215 | 3,853 | 730 | 304 | 2,242 | 3,086 | 1,137 |
| Sir Ddinbych | 9,604 | 3,795 | 746 | 217 | 2,199 | 2,647 | 1,236 |
| Sir y Fflint | 10,741 | 5,076 | 667 | 158 | 1,912 | 2,928 | 1,768 |
| Wrecsam | 12,081 | 6,033 | 886 | 138 | 2,185 | 2,839 | 2,754 |
| Powys | 9,159 | 3,664 | 545 | 179 | 2,056 | 2,715 | 437 |
| Ceredigion | 5,357 | 1,820 | 323 | 141 | 1,523 | 1,550 | 182 |
| Sir Benfro | 10,628 | 3,978 | 868 | 410 | 2,455 | 2,917 | 1,091 |
| Sir Gaerfyrddin | 16,214 | 5,551 | 1,233 | 717 | 4,291 | 4,422 | 714 |
| Abertawe | 22,398 | 8,614 | 1,601 | 539 | 6,024 | 5,620 | 3,468 |
| Castell-nedd Port Talbot | 16,939 | 7,266 | 1,280 | 247 | 4,372 | 3,774 | 2,867 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13,445 | 5,690 | 1,215 | 226 | 3,394 | 2,920 | 1,669 |
| Bro Morgannwg | 9,574 | 3,495 | 900 | 303 | 2,537 | 2,339 | 506 |
| Rhondda Cynon Taf | 24,871 | 7,500 | 2,567 | 957 | 7,906 | 5,941 | 1,406 |
| Merthyr Tudful | 6,420 | 2,442 | 610 | 200 | 1,696 | 1,472 | 913 |
| Caerffili | 17,288 | 5,585 | 1,629 | 637 | 4,948 | 4,489 | 1,458 |
| Blaenau Gwent | 8,790 | 3,347 | 681 | 269 | 2,519 | 1,974 | 1,030 |
| Torfaen | 10,012 | 5,074 | 581 | 82 | 2,095 | 2,180 | 2,427 |
| Sir Fynwy | 5,719 | 2,580 | 330 | 103 | 1,218 | 1,488 | 622 |
| Casnewydd | 13,459 | 5,525 | 1,152 | 360 | 3,302 | 3,120 | 2,450 |
| Caerdydd | 30,948 | 12,671 | 2,677 | 1,081 | 8,006 | 6,513 | 3,982 |
| **Cymru** | **279,202** | **108,791** | **22,393** | **7,958** | **70,394** | **69,666** | **32,773** |

Ffynhonnell: Datatank

(r) Diwygiwyd y ffigurau yn y tabl hwn ym mis Awst 2020 yn dilyn canfod gwall.

## Tabl A5: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl math o deulu, Mawrth 2019 (a)

| | Cyfanswm | Sengl heb unrhyw ddibynyddion | Sengl gydag un neu fwy o ddibynyddion | Cwpl heb unrhyw ddibynyddion | Cwpl gydag un neu fwy o ddibynyddion |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 6,004 | 3,546 | 991 | 1,029 | 438 |
| Gwynedd | 9,336 | 5,846 | 1,460 | 1,419 | 611 |
| Conwy | 10,215 | 6,237 | 1,633 | 1,658 | 687 |
| Sir Ddinbych | 9,604 | 5,480 | 1,673 | 1,581 | 870 |
| Sir y Fflint | 10,741 | 6,163 | 2,102 | 1,694 | 782 |
| Wrecsam | 12,081 | 6,579 | 2,637 | 1,807 | 1,058 |
| Powys | 9,159 | 5,676 | 1,316 | 1,526 | 641 |
| Ceredigion | 5,357 | 3,289 | 776 | 870 | 422 |
| Sir Benfro | 10,628 | 6,031 | 1,886 | 1,803 | 908 |
| Sir Gaerfyrddin | 16,214 | 9,332 | 2,665 | 2,777 | 1,440 |
| Abertawe | 22,398 | 13,827 | 4,016 | 2,965 | 1,590 |
| Castell-nedd Port Talbot | 16,939 | 9,908 | 3,083 | 2,716 | 1,232 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13,445 | 7,490 | 2,676 | 2,186 | 1,093 |
| Bro Morgannwg | 9,574 | 5,491 | 2,129 | 1,240 | 714 |
| Rhondda Cynon Taf | 24,871 | 14,346 | 4,809 | 3,999 | 1,717 |
| Merthyr Tudful | 6,420 | 3,667 | 1,306 | 979 | 468 |
| Caerffili | 17,288 | 9,744 | 2,953 | 3,154 | 1,437 |
| Blaenau Gwent | 8,790 | 5,158 | 1,428 | 1,509 | 695 |
| Torfaen | 10,012 | 5,577 | 2,020 | 1,544 | 871 |
| Sir Fynwy | 5,719 | 3,426 | 992 | 860 | 441 |
| Casnewydd | 13,459 | 7,648 | 2,933 | 1,676 | 1,202 |
| Caerdydd | 30,948 | 16,802 | 7,156 | 3,414 | 3,576 |
| **Cymru** | **279,202** | **161,263** | **52,640** | **42,406** | **22,893** |

***Ffynhonnell: Datatank***

## Tabl A6: Llwyth achosion y Cynllun Gostyngiadau yn ôl band y dreth gyngor, Mawrth 2019 (a)

| | A- | A | B | C | D | E | F | G | H | I | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 8 | 1,999 | 1,932 | 1,064 | 591 | 293 | 94 | 20 | 2 | 0 | 6,003 |
| Gwynedd | 1 | 2,590 | 3,759 | 1,738 | 702 | 408 | 118 | 20 | 0 | 0 | 9,336 |
| Conwy | 3 | 2,486 | 2,665 | 3,147 | 1,200 | 513 | 161 | 35 | 5 | 0 | 10,215 |
| Sir Ddinbych | 1 | 1,975 | 2,786 | 3,329 | 944 | 366 | 145 | 51 | 6 | 1 | 9,604 |
| Sir y Fflint | 12 | 2,002 | 3,012 | 3,664 | 1,109 | 602 | 265 | 68 | 5 | 2 | 10,741 |
| Wrecsam | 3 | 2,237 | 4,652 | 3,490 | 966 | 476 | 201 | 41 | 13 | 2 | 12,081 |
| Powys | 4 | 2,074 | 2,645 | 2,140 | 977 | 778 | 408 | 116 | 12 | 3 | 9,157 |
| Ceredigion | 2 | 521 | 1,749 | 1,470 | 851 | 602 | 136 | 22 | 1 | 0 | 5,354 |
| Sir Benfro | 1 | 2,711 | 2,856 | 3,054 | 1,079 | 688 | 186 | 45 | 6 | 2 | 10,628 |
| Sir Gaerfyrddin | 23 | 4,001 | 7,182 | 2,715 | 1,249 | 763 | 240 | 39 | 0 | 0 | 16,212 |
| Abertawe | 17 | 7,941 | 8,240 | 3,594 | 1,649 | 629 | 251 | 56 | 10 | 5 | 22,392 |
| Castell-nedd Port Talbot | 24 | 6,593 | 8,072 | 1,445 | 532 | 207 | 53 | 10 | 0 | 0 | 16,936 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 10 | 4,614 | 4,500 | 2,586 | 1,091 | 434 | 166 | 29 | 4 | 2 | 13,436 |
| Bro Morgannwg | 2 | 580 | 2,823 | 3,484 | 1,580 | 687 | 289 | 95 | 23 | 5 | 9,568 |
| Rhondda Cynon Taf | 71 | 16,441 | 5,231 | 2,264 | 533 | 217 | 77 | 22 | 3 | 0 | 24,859 |
| Merthyr Tudful | 19 | 4,913 | 1,109 | 210 | 118 | 41 | 6 | 4 | 0 | 0 | 6,420 |
| Caerffili | 18 | 6,535 | 6,700 | 2,949 | 794 | 203 | 69 | 17 | 1 | 2 | 17,288 |
| Blaenau Gwent | 21 | 6,870 | 1,467 | 282 | 108 | 37 | 4 | 0 | 0 | 0 | 8,789 |
| Torfaen | 7 | 3,154 | 4,052 | 2,290 | 294 | 141 | 62 | 10 | 0 | 0 | 10,010 |
| Sir Fynwy | 0 | 176 | 1,651 | 1,666 | 1,369 | 442 | 255 | 117 | 37 | 5 | 5,718 |
| Casnewydd | 4 | 3,320 | 4,989 | 3,471 | 1,100 | 375 | 145 | 44 | 5 | 0 | 13,453 |
| Caerdydd | 7 | 2,454 | 8,292 | 9,889 | 6,361 | 2,790 | 912 | 206 | 29 | 8 | 30,948 |
| **Cymru** | **258** | **86,187** | **90,364** | **59,941** | **25,197** | **11,692** | **4,243** | **1,067** | **162** | **37** | **279,148** |

Ffynhonnell: Datatank
(a) Nid yw'r ffigurau yn cynnwys 54 o achosion lle nad yw band yr eiddo yn hysbys